# DARGANFOD ARLOESEDD - Rhagfyr 2016 – Chwefror 2017

FARMING connect
cyswllt FFERMIO

## Statws RAG gweithgareddau

| | |
|---|---|
| CANOLFAN CYFNEWID GWYBODAETH | **Gwyrdd** – Erthyglau technegol ac adolygiadau llenyddiaeth EIP wedi cyrraedd y targed. |
| EIP | **Oren** – Y gwaith o sefydlu gweithdrefnau a'r broses ymgeisio wedi cymryd amser, ond mae 17 prosiect wedi cael eu cyfeirio at LIC er mwyn symud ymlaen tuag at wneud cais llawn. |
| LAB AMAETH | **Gwyrdd** – ar y trywydd iawn i ddarparu arddangosfa yn Sioe Amaethyddol Frenhinol Cymru 2017 yn seiliedig ar galendr o weithgareddau a digwyddiadau a gynigir dos y misoedd nesaf. |

## CANOLFAN CYFNEWID GWYBODAETH

SECTORAU:

Lluniwyd y Ganolfan Cyfnewid Gwybodaeth i wella gwybodaeth y Swyddogion Technegol a Swyddogion Datblygu - yn ogystal ag ymgynghorwyr yng Nghymru, fel bod ganddynt fwy o wybodaeth i ddarparu adnodd gwybodaeth wyddonol arbenigol trwy rannu gwybodaeth yn deillio o ymchwil academaidd trwy Cyswllt Ffermio.

- Yn cael ei arwain gan ymgyrchoedd a digwyddiadau Cyswllt Ffermio, sy'n cyd-fynd ag Amcanion Strategol Llywodraeth Cymru
- Wedi'i ysgogi gan ymchwil o fewn IBERS a sefydliadau ymchwil eraill y DU - mae lleoliad yn IBERS yn creu pont ac yn arwain cydweithrediad
- Cyngor/Adolygu cynigion prosiect Safleoedd Ffocws, Arddangos ac Arloesedd
- Mynediad at wybodaeth yn ymwneud ag Amaethyddiaeth Manwl Gywir a Data Mawr i ddarparu gwybodaeth ar gyfer prosiectau'r Rhwydwaith Arddangos

### Prif allbynnau:

- 11 o nodiadau cysyniadol *(syniadau ac awgrymiadau)* ar gyfer erthyglau technegol a phrosiectau ar fferm
- Erthyglau technegol a gyhoeddwyd;
  - Ffactorau presennol sy'n effeithio ar goetiroedd y DU a'r diwydiant coedwigaeth: Rhywogaethau plâu
  - Ffactorau presennol sy'n effeithio ar goetiroedd y DU a'r diwydiant coedwigaeth: Pathogenau
  - Parthau Perygl Nitrad
  - Ffynonellau protein posibl ar gyfer bwyd anifeiliaid: Pryfed
  - A all cyfoethogi rhywogaethau planhigion mewn glaswelltir wella gynyddu cynnyrch a gwella storfeydd carbon y pridd?
  - Effaith dewis deunyddiau gwahanol dan ddefaid ar eu hymddygiad a'u lles
  - Gwella goroesiad ŵyn
- Mynychu cyfarfod Gaeaf Grŵp Trafod Pridd Cymru
- Adolygu cynigion prosiect a syniadau ar gyfer prosiectau ar ffermydd y Rhwydwaith Arddangos

### Prif negeseuon o erthygl enghreifftiol:

**A all cynyddu'r cyfoeth o rywogaethau o blanhigion mewn glaswelltir gynnal y cynnyrch a gwella storfeydd carbon yn y pridd?**

- Gall cynyddu'r cyfoeth o rywogaethau o blanhigion gynyddu bioamrywiaeth tir amaethyddol a chynnig lefelau cynnyrch addas ar gyfer anifeiliaid sy'n pori neu i gynhyrchu gwair
- Gall lleihau dwyster rheoli glaswelltir leihau faint o garbon a gollir o'r pridd a gwella strwythur y pridd
- Gallai'r dull hwn gynnig cyfrwng i leihau effaith amgylcheddol a chost cynhyrchu i'r ffermwr





**Ffynonellau protein posibl ar gyfer porthiant anifeiliaid: Pryfed**

- Mae angen datblygu ffynonellau protein gwahanol ar gyfer porthiant anifeiliaid gan y gall dibyniaeth ar y ffynonellau presennol sy'n cael eu mewnforio olygu y gall y Deyrnas Unedig wynebu ansicrwydd economaidd ac o ran y gadwyn gyflenwi yn y dyfodol.
- Gallai ffermio pryfed gyfyngu ar y gofyn am ddefnydd tir i gynhyrchu porthiant anifeiliaid, gan ryddhau tir i dyfu cnydau i bobl eu bwyta.
- Gan y gall pryfed gael eu porthi ar ddeunydd gwastraff organig, gall gynnig dewis gwirioneddol i reoli baich cynyddol o wastraff trwy ailgylchu deunyddiau gwerthfawr a fyddai'n cael eu colli fel arall.
- Er ei fod yn cael ei wahardd gan gyfraith yr UE ar hyn o bryd, gall defnyddio pryfed yn borthiant anifeiliaid ddod yn bosibl wrth i dystiolaeth gynyddol ddangos eu bod yn ddiogel i'w defnyddiol.

## PARTNERIAETH ARLOESI EWROP


SECTORAU:



Gall gweithio'n unigol ei gwneud hi'n anodd i ganfod datrysiadau.
*Working in isolation can make finding solutions difficult.*



Mae EIP Amaeth Cymru yn cyllido grwpiau o unigolion sydd yn edrych am ddatrysiadau arloesol i sialensiau cyffredin.
*EIP Agri Wales funds groups of individuals seeking innovative solutions to similar challenges.*




Gellir cysylltu grwpiau ledled Ewrop i rannu syniadau a gwybodaeth ynglŷn â themâu cyffredin.
*Throughout Europe, groups can be linked up to share ideas and information on common themes.*

| RHAGFYR | IONAWR | CHWEFROR |
|---|---|---|
| Adborth ar ddatblygiad prosiectau | 7 ymholiad prosiect wedi cael eu cyfeirio at y Ganolfan Cyfnewid Gwybodaeth er mwyn cwblhau adolygiadau llenyddiaeth<br>Diweddariad gan Euro Dairy i greu cyswllt rhwng eu gweithgareddau | 3 phrosiect wedi cael eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru |

## LAB AMAETH

AGRI LAB AMAETH

**Gweithgaredd diweddar;**

- Mae calendr o ymweliadau, teithiau, cyflwyniadau ac arddangosfeydd i ffermwyr a choedwigwyr yng Nghymru wedi cael ei gynnig ar gyfer 2017.
- Bydd y Lab Amaeth yn cynnig cyfle i archwilio 'pum maes technoleg' sydd eisoes wedi cael eu nodi gan aelodau'r fforwm yn 2016.
- Bydd cydweithio rhwng CAFC a'r fforwm Lab Amaeth yn dangos technolegau newydd yn ystod arddangosfa Lab Amaeth Cenedlaethol Cymru eleni. Cynhaliwyd cyfarfod cychwynnol gydag Aled Jones, prif weithredwr cynorthwyol CAFC, ym mis Ionawr.
- Mae trafodaethau rhwng Canolfan Cenedlaethol Ffermio Manwl Gywir Harper Adams a Champws Arloesi a Menter Prifysgol wedi cychwyn er mwyn datblygu partneriaeth weithio gyda'r Fforwm Lab Amaeth.

Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas
Llywodraeth Cymru
Welsh Government